Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Bro Ingli**
**Heol Hir**
**Trefdraeth**
**Sir Benfro**
**SA42 0TL**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/06/2014**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Bro Ingli yn nhref fechan Trefdraeth ger Abergwaun ar arfordir gorllewinol Sir Benfro. Mae’r ysgol yn gwasanaethu’r ardal leol ynghyd â phentrefi cyfagos. Daw o dan ofal awdurdod lleol Sir Benfro.

Mae 106 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy’n cynnwys 18 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae’r disgyblion wedi eu rhannu’n bump dosbarth, yn cynnwys dosbarth meithrin rhan-amser. Mae tua 12% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy’n is na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw tua 7% o’r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg fel y brif iaith.

Yn unol â pholisi’r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg gyda’r nod o’u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol uwchradd yn 11 oed.

Mae tua 22% o’r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, gyda nifer bach iawn â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Ebrill 2008. Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Ingli yn 2013-2014 yw £3,913. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Benfro yw £6,304 a'r lleiafswm yw £3,270. Mae Ysgol Bro Ingli yn safle 26ain o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r farn gyffredinol ar berfformiad Ysgol Bro Ingli yn dda oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyrraedd safonau da mewn llythrennedd a rhifedd;
- bod disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda;
- bod bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi;
- bod yr ysgol yn darparu cwricwlwm eang, dychmygus a chyfoethog i ddisgyblion; a
- bod safon yr addysgu'n gadarn dda ar draws yr ysgol

### Rhagolygon gwella

Mae'r farn am ragolygon gwella ysgol Bro Ingli yn dda oherwydd:

- bod gweledigaeth uchelgeisiol yr ysgol yn perthyn i bawb ac yn seiliedig ar godi safonau;
- bod y pennaeth a'r dirprwy yn frwdfrydig ac yn arwain yr ysgol yn gadarn, yn heriol ac yn llwyddiannus;
- bod y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn heriol;
- bod gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r mannau sydd angen eu gwella a'u bod yn gweithredu'n briodol arnynt; a
- bod ganddi nifer o bartneriaethau strategol effeithiol gan gynnwys y rhieni.

## Argymhellion

A1 Darparu rhaglen gadarn i addysgu disgyblion am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

A2 Sicrhau bod canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol bob amser yn cydnabod cyraeddiadau disgyblion yn gywir

A3 Sicrhau bod y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag agweddau ar reolaeth ac arweinyddiaeth yn cael eu nodi'n llawn yn y cynlluniau datblygu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau gwrando'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn.

Mae bron pob disgybl yn medru defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol hyderus tra byddant wrth eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae gan y rhan fwyaf eirfa eang ac maent yn defnyddio cystrawen naturiol a thafodiaith leol wrth siarad. Mae'r rhan fwyaf yn medru darllen yn ystyrlon i safon sydd o leiaf yn briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol yn lled gywir at wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru cynnal sgyrsiau yn hyderus yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa raenus a naturiol wrth sgwrsio am eu gwaith ynghyd â materion eraill sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Mae'r mwyafrif yn medru mynegi barn mewn modd aeddfed am ystod o destunau. Mae'r rhan fwyaf yn medru darllen yn ystyrlon, mynegi barn am lyfrau a disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon yn ystyrlon. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn ysgrifennu'n estynedig i safon uchel ar gyfer ystod o bwrpasau ar draws y cwricwlwm, gan atalnodi'n gywir a chyfleu syniadau yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar yr Ail Ryfel Byd mewn hanes a chofnodi ymchwiliadau mewn gwyddoniaeth, yn ogystal ag ysgrifennu straeon diddorol mewn gwersi iaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus yn y Saesneg. Maent yn medru darllen i safon sydd o leiaf yn cyfateb i'w hoed, gan amrywio goslef eu llais yn briodol er mwyn cyfleu ystyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig i safon uchel mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dadansoddi gwrthrychau, trin data syml, datrys problemau yn ymwneud ag arian a darllen amser mewn amrywiol ddulliau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion hŷn yn trafod data'n hyderus, gan lunio graffiau sy'n briodol at wahanol bwrpasau, er enghraifft nifer y palod sydd ar Ynys Sgomer bob mis.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da.

Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn dangos cynnydd ers 2012.

Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r deilliant disgwyliedig (deilliant 6) mewn datblygiad Iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn 2013 yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd y cyfran a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl mewn datblygiad lles yn is na chyfartaledd y teulu ond yn uwch na chyfartaledd Cymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y deilliannau disgwyliedig yn 2013 â'r rhai ar gyfer ysgolion tebyg, gosodwyd yr ysgol yn yr 50% is ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen, datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad lles. Roedd yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru.

Roedd y canran a gyflawnodd lefelau yn uwch na'r rhai ddisgwyliedig (lefel 5 neu uwch) yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan yn y ddwy iaith, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013.

Bu'r tueddiadau yn y cyflawniadau yn gyffredinol anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf ar gyfer y cyfraddau sydd wedi cyrraedd y lefelau disgwyliedig ac uwch.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar y lefelau disgwyliedig â'r rhai ar gyfer ysgolion tebyg yn 2013, mae'r ysgol yn y 25% isaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, Saesneg a gwyddoniaeth. Mae yn y 50% uwch yn y Gymraeg ac o fewn yr 50% is ar gyfer mathemateg. Yn y pedair blynedd flaenorol, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o ysgolion tebyg.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

Mae'r safonau a welwyd yn ystod yr arolygiad yn sylweddol uwch nag y mae'r data'n ei awgrymu.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi. Maent yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod pryderon. Mae bron pob un yn deall pwysigrwydd cadw'n iach ac yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i gadw'n heini. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae gan y disgyblion hŷn ddealltwriaeth briodol o effaith alcohol, cyffuriau ac ysmygu ar y corff.

Mae canran presenoldeb disgyblion am y flwyddyn addysgol ddiwethaf ychydig dros 94% ac yn dangos tuedd ar i fyny dros bedair blynedd. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn briodol i gyfrifoldebau a ddirprwyir iddynt. Mae'r 'Ffwrwm Ffrindiau' yn hynod effeithiol i sicrhau nad yw unigolion yn teimlo'n unig ar y iard. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn dangos parch tuag at ymdrechion ei gilydd a'u hathrawon. Maent yn manteisio'n briodol ar gyfleoedd i fynegi barn drwy eu cyfraniad i weithgareddau'r cyngor dosbarth a'r cyngor ysgol.

Mae'r disgyblion yn falch o fod yn rhan o'u cymuned ac mae'r balchder hwn yn sbardun arbennig iddynt i wneud eu gorau a chyrraedd safonau uchel. Maent yn cyfrannu'n helaeth at waith dyngarol drwy godi arian a chymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol yn lleol. Maent yn canu carolau yn y gymuned ac yn cynnal cwrdd diolchgarwch mewn capel yn y dref. Mae ymweld â'r gymuned yn rheolaidd fel rhan o'u gwaith thematig yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu medrau cymdeithasol, eu medrau cyfathrebu a'u medrau bywyd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio a darparu cwricwlwm eang, dychmygus a chyfoethog i ddisgyblion, sy'n cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol. Maent wedi ymgorffori gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn effeithiol i'r cynlluniau er mwyn sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu ac ymarfer eu medrau yn rheolaidd yn y meysydd hyn ar draws y cwricwlwm. Mae'r profiadau cyfoethog a symbylus hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ddysgu'n annibynnol. Mae staff yn gwerthuso cynlluniau wythnosol yn rheolaidd er mwyn cynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer y cyfnod nesaf. Mae hon yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

Mae'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion holi ymwelwyr ac ymweld â lleoedd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r thema dan sylw yn dylanwadu'n effeithiol ar eu dealltwriaeth a'u chwilfrydedd wrth ddysgu. Cyfoethogir y profiadau dysgu ymhellach drwy ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cefnogi'r dysgu'n dda.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes, daearyddiaeth a diwylliant eu hardal a Chymru gyfan. Enghraifft effeithiol o hyn yw astudiaeth disgyblion hŷn o Sir Benfro. Mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddefnyddio'u tafodiaith naturiol wrth sgwrsio ag unigolion o fewn y gymuned.

Er bod cyfleoedd yn eu i ddisgyblion ddysgu am rai materion cynaliadwy, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer galluogi disgyblion i ddysgu'n llawn am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn ddigon cadarn.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu'n gadarn dda ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn defnyddio ystod amrywiol o strategaethau effeithiol i ysgogi'r disgyblion i gyrraedd eu potensial. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio'n effeithiol. Maent yn esbonio tasgau'n glir ac yn holi'n dreiddgar er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall anghenion y dasg dan sylw.

Mae cyflymder rhan fwyaf y gwersi ynghyd â brwdfrydedd yr athrawon yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at feithrin chwilfrydedd yn y disgyblion. Mae hyn hefyd yn ffordd effeithiol o'u hannog i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol o oed ifanc.

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr athrawon a'r disgyblion ac mae cyfraniad staff cynorthwyol yn sylweddol. Yn y gwersi gorau, mae hiwmor yr athrawon a'r dull naturiol a ddefnyddir wrth gywiro gwaith llafar disgyblion yn effeithiol iawn.

Yn yr ychydig wersi lle nad yw'r cynllunio mor effeithiol, nid oes ffocws digon clir ar drefn y gweithgareddau.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig effeithiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn deall pa mor dda maent yn cyflawni a'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud i wella. Maent yn rhoi cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion dargedau priodol ar gyfer gwella, sy'n cael eu gwerthuso a'u datblygu'n rheolaidd. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at godi safonau, yn enwedig ar frig yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod o weithdrefnau cynhwysfawr i asesu, olrhain cynnydd a monitro cyflawniad disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol i adnabod anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion ac i ddarparu rhaglenni ymyrraeth a heriau priodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw asesiadau diwedd cyfnodau allweddol bob amser yn cydnabod cyraeddiadau da y disgyblion.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn gynhwysfawr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar, lle mae pob un yn dangos parch a gofal am ei gilydd. Mae hyn yn hybu amgylchedd sy'n rhoi bri ar ddysgu ac yn meithrin ymdeimlad cryf o waith tîm ymysg oedolion a disgyblion. Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol a darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer meithrin eu dealltwriaeth o fwyta ac yfed yn iach a chaiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ei hybu'n effeithiol mewn cyfnodau addoli ar y cyd ac mewn ystod o weithgareddau eraill.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer annog presenoldeb da, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb yr ysgol.

Trwy gydweithio ag ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth, mae staff yn darparu'n effeithiol iawn i gefnogi anghenion penodol unigolion. Maent hefyd yn cefnogi rhieni'n briodol pan fo angen, er budd y disgyblion.

Darperir yn effeithiol ar gyfer disgyblion ag arnynt anghenion dysgu ychwanegol. Caiff eu hanghenion eu hadnabod yn gynnar, er mwyn cyflwyno cymorth priodol iddynt. Yn yr un modd, mae staff yn barod i gydnabod pan fo'n amserol i atal y cymorth er budd y disgyblion. Mae staff yn darparu cynlluniau addysg unigol priodol ar gyfer yr unigolion hyn, sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol iawn i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen. Maent yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar lle caiff disgyblion eu trin yn gyfartal. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn seiliedig ar werthoedd sy'n hyrwyddo parch a gofal. Darperir cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddysgu am bobl o wahanol gefndiroedd ac i werthfawrogi diwylliannau gwahanol.

Mae cyflenwad priodol o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd sy'n dathlu llwyddiannau a rhoi bri ar waith y disgyblion. Mae'r gofod dysgu o fewn i'r adeilad a'r tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn addas ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at fodloni'r gofynion.

Lleolir yr ysgol ar safle braf a gwneir defnydd effeithiol o'r safle eang. Mae'r adeilad, y buarth a chaeau'r ysgol mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n drefnus. Mae'r cwrt amlbwrpas ar gyfer chwaraeon a'r parc chwarae cyfagos yn adnoddau cymunedol gwerthfawr sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan yr ysgol er mwyn cynnig profiadau diddorol ac ysgogol i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn manteisio'n dda ar ei safle ac ar y gymuned leol i ehangu'r profiadau dysgu trwy gynlluniau fel "Bant ậ'r Cart", sy'n annog y disgyblion i gyfarwyddo â'u cymuned ac i ddefnyddio'u tafodiaith drwy sgwrsio ag unigolion yn y dref.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth uchelgeisiol yr ysgol yn perthyn i bob un sy'n ymwneud â hi. Mae'r disgyblion a'r staff yn ymdrechu i 'gyrraedd y copa' yn feunyddiol.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn frwdfrydig ac yn arwain yr ysgol yn gadarn, yn heriol ac yn llwyddiannus. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn bodoli ac mae pawb yn cydweithio'n effeithiol er mwyn canolbwyntio ar godi safonau a sicrhau lles disgyblion.

Mae gan y staff addysgu ddyletswyddau monitro eglur ac mae'r broses o ddadansoddi data yn rhan ganolog o'u cyfrifoldebau o fewn y dosbarthiadau ac fel cydlynwyr pwnc.

Mae'r swydd ddisgrifiadau yn gyfredol. Mae athrawon a'r staff cymorth yn derbyn cefnogaeth briodol trwy'r gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae'r targedau gwelliant y feintiol ac yn bwydo'r blaenoriaethau gwella ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn heriol. Meddant ar wybodaeth briodol i'w galluogi i gydweithio'n effeithiol gyda'r pennaeth a'r staff er mwyn codi safonau.

Mae'r ysgol yn dangos ymrwymiad clir i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Rhoddir sylw dyledus i ddatblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac mae gweithdrefnau'r fframwaith yn cael effaith bositif ar gyrhaeddiad disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r strategaethau a gyflwynwyd i godi safonau ysgrifennu yn dangos gwelliant sylweddol yng nghyflawniad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yn treiddio'n llwyddiannus drwy gyfnod allweddol 2.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen i'r ysgol eu gwella. Mae'r trefniadau hunanarfarnu yn dda ac wedi eu seilio ar dystiolaeth eang a phriodol. Mae'r ysgol yn dadansoddi ystod briodol o ddata, monitro gwaith disgyblion, arsylwi gwersi ac yn cywain barn y disgyblion a'r rhieni yn gyson, ac yn defnyddio'r canfyddiadau yn effeithiol. Mae hyn yn nodwedd gref ar waith yr ysgol ac yn ganolog i'r broses o godi safonau.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen weithredol sydd wedi ei chreu ar y cyd gyda'r llywodraethwyr a'r staff cyfan. Mae ei blaenoriaethau yn addas ac yn seiliedig ar ganfyddiadau hunanarfarnu. Mae wedi ei hariannu'n briodol ac yn cael ei monitro'n drwyadl i sicrhau ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Fodd bynnag, nid yw agweddau ar ddatblygu rheolaeth ac arweinyddiaeth yn cael eu nodi'n ddigon llawn yn y ddogfen gyfredol.

Mae'r holl faterion ar ôl yr arolygiad diwethaf wedi derbyn sylw dyledus ac yn dangos effaith gadarnhaol ar safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol at y ddarpariaeth ac at y safonau da y mae'r disgyblion yn eu cyflawni. Nodwedd arbennig o'r bartneriaeth gyda'r rhieni yw'r gefnogaeth effeithiol a gynigir iddynt i ddeall y blaengareddau newydd a gyflwynir. Mae hyn yn gyfrwng pwerus i sefydlu perthynas gadarn a chynnwys y rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau.

Mae'r cysylltiadau niferus a gwerthfawr â'r gymuned leol yn cael dylanwad buddiol ar brofiadau dysgu'r disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi.

Mae'r ysgol gyfan yn elwa o'r berthynas waith effeithiol sy'n bodoli rhwng y ddwy ysgol a reolir gan y pennaeth.  Maent yn rhannu arfer dda ac yn cyd-gynllunio gan ychwanegu at y profiadau gwerthfawr a gaiff y disgyblion.  Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill y clwstwr lleol yn y broses o gymedroli a chyd-safoni asesiadau parhaus.  Fodd bynnag, nid yw adnabyddiaeth athrawon o ofynion lefelau uwch bob amser yn eglur rhwng y sectorau ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau'r ysgol.

Mae rhaglenni pontio effeithiol yn bodoli i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n hyderus ac yn parhau i wneud cynnydd priodol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae adnoddau ariannol a staffio'r ysgol yn cael eu rheoli'n effeithiol i gefnogi'r gwaith o godi safonau.  Mae nifer priodol o athrawon a chymorthyddion dysgu yn yr ysgol ac maent wedi eu dirprwyo'n briodol yn unol â'r angen.  Gwneir defnydd da o arbenigedd pob un ac mae'r ymdeimlad o dîm yn nodwedd gref o waith yr ysgol.  Rhoddir cefnogaeth effeithiol i'r athrawon gan gymorthyddion dosbarth sy'n cefnogi'r disgyblion yn dda wrth eu gwaith.  Ceir amrediad da o adnoddau sy'n cael eu rheoli'n effeithlon i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd ar y cwricwlwm.

Yn dilyn y broses fanwl o reoli perfformiad, mae staff addysgu a staff cymorth yn cael mynediad i hyfforddiant priodol.  Mae'r defnydd o gymunedau dysgu proffesiynol a'r agweddau eraill ar hyfforddiant yn arddangos tystiolaeth gref o effaith gadarnhaol ar y broses o godi safonau disgyblion.  Mae ymglymiad mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn yr ysgol ac yn allanol yn gadarn ac yn arwain at godi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd.  Mae'r trefniadau ar gyfer amser rheolaeth, cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol.  Mae athrawon yn defnyddio'u hamser yn effeithlon er budd y disgyblion ac i ddatblygu a monitro'u meysydd cyfrifoldeb yn ôl yr angen.

Mae'r llywodraethwyr yn monitro'r gwariant ac effaith y cyllid yn drwyadl a dosrannir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol o fewn y cynllun datblygu.

Mae'r safonau uchel a'r defnydd darbodus o'r cyllid yn tystio bod yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg ond yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn dangos cynnydd ers 2012. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad lles yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan. Cyflawnodd 100% o'r disgyblion y deilliant disgwyliedig mewn datblygiad mathemategol yn 2013.

Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r deilliant disgwyliedig (deilliant 6) mewn datblygiad Iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn 2013 yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd y cyfran a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl mewn datblygiad lles yn is na chyfartaledd y teulu ond yn uwch na chyfartaledd Cymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y deilliannau disgwyliedig yn 2013 â'r rhai ar gyfer ysgolion tebyg, gosodwyd yr ysgol yn y 50% is ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen, datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad lles. Roedd yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol. Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer y dangosydd Cyfnod Sylfaen, datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ond yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad lles.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Yr un yw'r patrwm ar gyfer y lefelau disgwyliedig (lefel 4) yn y Gymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth ar wahân. Fodd bynnag, roedd y cyfran a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg yn uwch na cyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan.

Roedd y canran a gyflawnodd lefelau yn uwch na'r rhai disgwyliedig (lefel 5) yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan yn y ddwy iaith, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013.

Bu'r tueddiadau yn y cyflawniadau yn gyffredinol anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf ar gyfer y cyfraddau sydd wedi cyrraedd y lefelau disgwyliedig ac uwch.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar y lefelau disgwyliedig â chanlyniadau ysgolion tebyg yn 2013, roedd yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, Saesneg a gwyddoniaeth. Roedd yn y 50% uwch yn y Gymraeg ac o fewn yr 50% is ar gyfer mathemateg. Yn y pedair blynedd flaenorol, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o ysgolion tebyg.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 46 | 46<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 46 | 45<br>98%<br>92% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 46 | 46<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 46 | 46<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 46 | 45<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 46 | 44<br>96%<br>96% | 2<br>4%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 45 | 45<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 46 | 46<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 46 | 46<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 46 | 46<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 46 | 44<br>96%<br>77% | 2<br>4%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 46 | 44<br>96%<br>84% | 2<br>4%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 27 | 19 | 7 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 70% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 28 | 23 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 27 | 20 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 28 | 17 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 36% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 28 | 14 | 12 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 50% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 28 | 15 | 11 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 54% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 28 | 15 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 54% | 43% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 27 | 11 | 11 | 1 | 0 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 41% | 41% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 28 | 12 | 14 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 43% | 50% | 4% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 28 | 17 | 9 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 28 | 17 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 27 | 13 | 7 | 1 | 1 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 48% | 26% | 4% | 4% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 28 | 10 | 13 | 5 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 36% | 46% | 18% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 28 | 18<br>64% | 8<br>29% | 2<br>7% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 28 | 10<br>36% | 14<br>50% | 0<br>0% | 1<br>4% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 27 | 11<br>41% | 10<br>37% | 2<br>7% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 25 | 8<br>32% | 8<br>32% | 0<br>0% | 1<br>4% | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 28 | 20<br>71% | 6<br>21% | 0<br>0% | 1<br>4% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 28 | 19<br>68% | 7<br>25% | 2<br>7% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Owenna Davies | Arolygydd Tîm |
| Catrin Cray | Arolygydd Lleyg |
| Derfel Mon Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Enfys Howells | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.